

Is bwyllgor Cyllid 19/5/15

Presennol: Eifion Roberts, Dilys Evans, Lis Puw

1. Materion Cyflog:

Pensiwn – mae Hill & Roberts wedi cadarnhau y byddant yn cofrestru'r Cyngor ar gyfer Pensiwn yn y gweithle, yn unol a'r gofynion. Dyddiad cychwyn y cynllun i'r Cyngor fydd Chwefror 2017 ac fe fydd y cymryd 3 blynedd cyn iddo ddod i'w lawn dwf.

Cadarnhawyd cyflog y Clerc: £5116.80 p.a yn daladwy o fis Ebrill 2015.

2. Banc

Buddsoddi yn y Cyfrif Cadw: cytunwyd i'r Clerc symud arian nol ac ymlaen fel bo'r galw o'r Cyfrif Cadw, gan geisio peidio a chadw mwy na thua £2,000 yn y Cyfrif Cyfredol.

Gwnaethpwyd trefniadau gyda Mandadau'r Banc i adlewyrchu'r llofnodion newydd.

3. Aseiad o risgau ariannol – adolygwyd.

- i. Cytunwyd i ystyried yr angen am loches bws a goleuadau fflachio, yngh nghyd a gwyliau cenedlaethol a all ddod i'r Bala, wrth osod y praesept yn Ionawr
- ii. Angen creu ffurflen hawlio treuliau teithio a chadarnhau'r lwfans
- iii. Angen llunio spec manwl a rhoi'r gwaith o gynnal y Domen i dendar ym mis Ionawr
- iv. Angen llunio polisi ar gyfer cyfnod cadw dogfennau ar ôl ymhyngori gydag Un Llais Cymru
- v. Nodwyd y bydd angen clirio gweddill eiddo Cyngor Tref Y Bala o'r Henblas cyn i waith adnewyddu gychwyn, ac efallai ceisio lle i'w storio.

4. Dogfennau ar gyfer John Roberts – Maer wedi eu harwyddo.